
At sylw Gweinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**


Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 3 (7) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad Cyngor Bro Morgannwg ar lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol.

<table>
<tr><td>Nifer y Llwybrau Teithio Llesol presennol</td><td>Llwybrau cerdded presennol (nifer a hyd mewn km) – 16 – 17.27km<br>Llwybrau beicio presennol (nifer a hyd mewn km) – 24 – 32.47km<br>Llwybrau defnydd a rennir presennol (nifer a hyd mewn km) – 25 – 33.52km<br>Cyfanswm nifer y llwybrau: 65<br>Cyfanswm hyd mewn km: 83.26km<br><br>Dylid nodi, oherwydd newidiadau yn archwiliad 2021 o lwybrau, fod 16 o lwybrau 'presennol' wedi'u hailddosbarthu fel llwybrau 'yn y dyfodol'.  Mae angen 'ateb sydyn' ar lawer o'r llwybrau hyn (gosod cwrbyn isel/palmant botymog) i'w dychwelyd i gyflwr da gan ddefnyddio cyllid Teithio Llesol Craidd Llywodraeth Cymru.</td></tr>
<tr><td>Data llinell sylfaen yn 2016</td><td>Ym mis Chwefror 2016 defnyddiodd 38 o feicwyr y dydd ar gyfartaledd y cyfleuster defnydd a rennir ar hyd Port Road, y Barri.<br><br>Casglwyd data gan Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn 2016. Roedd 2% o'r disgyblion yn beicio i'r ysgol a 28% yn cerdded.<br><br>Cynhaliwyd arolwg teithio staff yn 2016, a dangosir y canlyniadau isod:<br><br>Cynllun Teithio Cyngor Bro Morgannwg 2016<br>Sut ydych chi wedi teithio i'r gwaith yn ystod yr wythnos diwethaf?
<table>
<tr><th></th><th>Car (ar eich pen eich hun)</th><th>Car (rhannu)</th><th>Bws</th><th>Trên</th><th>Beic Modur</th><th>Cerdded</th><th>Beicio</th><th>Arall</th><th>Ddim yn y gwaith</th></tr>
<tr><td>Dydd Llun</td><td>243 (70%)</td><td>22 (6%)</td><td>7 (2%)</td><td>13 (4%)</td><td>1 (0%)</td><td>36 (10%)</td><td>6 (2%)</td><td>1 (0%)</td><td>22 (6%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Mawrth</td><td>249 (71%)</td><td>22 (6%)</td><td>7 (2%)</td><td>13 (4%)</td><td>2 (1%)</td><td>41 (12%)</td><td>9 (3%)</td><td>1 (0%)</td><td>12 (3%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Mercher</td><td>257 (74%)</td><td>21 (6%)</td><td>4 (1%)</td><td>12 (3%)</td><td>3 (1%)</td><td>37 (11%)</td><td>9 (3%)</td><td>2 (1%)</td><td>8 (2%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Iau</td><td>245 (71%)</td><td>20 (6%)</td><td>8 (2%)</td><td>13 (4%)</td><td>3 (1%)</td><td>38 (11%)</td><td>11 (3%)</td><td>1 (0%)</td><td>13 (4%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Gwener</td><td>234 (71%)</td><td>15 (5%)</td><td>5 (2%)</td><td>14 (4%)</td><td>2 (1%)</td><td>38 (12%)</td><td>8 (2%)</td><td>1 (0%)</td><td>22 (7%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Sadwrn</td><td>12 (12%)</td><td>0 (0%)</td><td>0 (0%)</td><td>1 (1%)</td><td>0 (0%)</td><td>6 (6%)</td><td>0 (0%)</td><td>0 (0%)</td><td>78 (80%)</td></tr>
<tr><td>Dydd Sul</td><td>10 (11%)</td><td>0 (0%)</td><td>0 (0%)</td><td>0 (0%)</td><td>0 (0%)</td><td>4 (4%)</td><td>1 (1%)</td><td>0 (0%)</td><td>78 (84%)</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Pa ddata oedd ar gael yn eich awdurdod lleol i gofnodi'r defnydd?</td><td>Yn 2017 roedd gan y Cyngor 11 dyfais cyfrif beiciau sefydlog ledled y Fro.  Ers hynny mae 13 ychwanegol wedi'u gosod. Mae 12 o'r dyfeisiau hyn ar Goridor Port Road y Barri, o'r Rhws yn y Gorllewin, i Groes Cwrlwys yn y Dwyrain.<br><br>Roedd data Cyfrifiad 2011 ar gael.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Data newydd yn 2021 | Cyfartaledd dyddiol nifer y beicwyr sy’n defnyddio’r cyfleuster defnydd a rennir ar Port Road yw 39. Dyma gynnydd bach ar y data a gofnodwyd yn 2016. Dylid cofio nad yw patrymau cymudo wedi dychwelyd i’r arfer oherwydd Covid-19 ac mae llawer o bobl yn gweithio gartref. Pe bai hyn wedi bod yn gyfnod 'normal' byddem wedi disgwyl mwy o gynnydd yn y defnydd o Port Road.<br>Darparodd un ddyfais cyfrif ar Port Road werth 2 flynedd o ddata a gofnododd:<br>• Dydd Iau cyntaf fis Hydref 2020 – 30 o ddefnyddiwr dyddiol<br>• Dydd Iau cyntaf fis Hydref 2021 – 40 o ddefnyddiwr dyddiol<br><br>Mae dyfeisiau cyfrif beiciau ar lwybrau eraill wedi'u gosod ac mae data'n cael ei lawrlwytho. Bydd data ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a bydd ar gael ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Cynhaliwyd arolygon camerâu beiciau a cherddwyr ar gyfer cynlluniau teithio llesol sy'n cael eu dylunio a'u hadeiladu ar hyn o bryd. Mae data penodol y cynllun hwn ar gael ar gais.<br><br>Cynhaliwyd arolwg teithio staff ddiwedd 2021. Caiff hyn ei ailadrodd yn flynyddol er mwyn deall sut mae patrymau gweithio a theithio yn newid. Ni ellir cymharu'r canlyniadau â'r arolwg blaenorol yn 2016 gan fod 48% o'r staff ar hyn o bryd yn gweithio’n hybrid. Mae cipolwg ar deithiau yn ystod y dydd dros gyfnod o wythnos yn dangos:<br><br><br><br>Lansiodd y Cyngor gynllun llogi beiciau trydan ym mis Tachwedd 2020. Cafodd y rhain eu rhentu ychydig o dan 12,000 o weithiau yn y 12 mis cyntaf.<br><br>Caiff safleoedd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol eu monitro o bryd i'w gilydd ac maent yn darparu data am gerddwyr a beicwyr.<br><br>Cwblhaodd yr 8 Ysgol Uwchradd yn y Fro arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Mae'r graffiau isod yn dangos bod gan Fro Morgannwg lefelau uwch o deithio llesol na'r cyfartaledd cenedlaethol, a bod lefelau teithio llesol wedi cynyddu o 38% yn 2017 i 41% yn 2019. |

## Active travel to school

**Fig. 7 Students whose main part of their journey to school is walking or cycling**





**Range of school-level percentages:**

| | | Year 7 | Year 8 | Year 9 | Year 10 | Year 11 | | All students |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Max | 65% | 59% | 54% | 62% | 62% | | 60% |
| | Min | 20% | 23% | 21% | 16% | 15% | | 19% |

*Medi-Rhag 2017*

## Active travel to school

**Fig. 7 Students whose main part of their journey to school is walking or cycling**




**Range of school-level percentages:**

| | | Year 7 | Year 8 | Year 9 | Year 10 | Year 11 | | All students |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Max | 62% | 64% | 65% | 83% | 57% | | 60% |
| | Min | 18% | 16% | 16% | 20% | 21% | | 19% |

*Medi-Rhag 2019*


Mae datblygwyr yn parhau i ddarparu cynlluniau teithio gyda cheisiadau cynllunio.  Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am symudiadau teithio ledled y Fro.

Mewn arolwg staff a gynhaliodd Aston Martin gyda 98 aelod o staff, roedd 96 ohonynt yn teithio mewn car preifat.

Mae gan y Cyngor gyfrif Strava Metro y gellir ei ddefnyddio i ddangos tystiolaeth o'r defnydd o lwybrau.

| | |
|---|---|
| |  |
| Pa ddata fydd ar gael i gefnogi'r fersiwn nesaf o'r adroddiad hwn? | Bydd dyfeisiau cyfrif beiciau yn parhau i gael eu gosod ar lwybrau Teithio Llesol yn y Fro wrth iddynt gael eu hadeiladu. Bydd y data'n cael ei lawrlwytho yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd ysgolion yn parhau i gael eu hannog i gwblhau eu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol ac ymuno â phrosiect Cerdded Unwaith yr Wythnos ( WOW) Strydoedd Ysgol. Bydd y rhain yn rhoi data teithio llesol gwerthfawr i'r ysgol a'r Cyngor gan ddisgyblion a staff yr ysgol. Ar 31 Rhagfyr 2021 mae 14 o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer WOW ym mlwyddyn ariannol 2021/22.<br><br>Cynhelir arolygon teithio staff yn flynyddol.<br><br>Mae beiciau cronfa'r Cyngor yn cael eu rhoi i'r staff ar gais a bydd eu defnydd yn cael ei gofnodi a'i fonitro.<br><br>Bydd datblygwyr yn parhau i ddarparu cynlluniau teithio gyda cheisiadau cynllunio. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am symudiadau teithio ledled y Fro.<br><br>Bydd data Strava Metro yn parhau i gael ei ddefnyddio.<br><br>Bydd data'r Cyfrifiad o 2021 ar gael i'r cyhoedd yn fuan felly bydd hyn yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Mae Sustrans yn cynnal prosiect E-Move yn y Barri lle maent yn monitro'r defnydd o e-feiciau ar gyfer beiciau cargo y maent yn eu rhoi ar fenthyg. |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (cyhoeddiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr: 

Enw'r Prif Weithredwr: Robert Thomas

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: 21 Rhagfyr 2021